Cyfres Llanbedr | Mawrth 1930 | Cyf. 30. Rhif 3.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Rhestr o Weinidogion yr Onnenfawr
Hanes Capeli'r Enwad—
Yr Onnenfawr.
De Profundis.
"Y Ffordd yr edrychaf ar bethau."
Y Stâr Garreg.
Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. MAWRTH, 1930. Cyf. XXX. Rhif 3.

Rhestr o Weinidogion yr Onnenfawr.

LLANDYFAEN.

John Griffiths (Jac Ruffydd) 1808—1838.

Arthur Williams, Cynorthwywr 1816—1832.

D. L. Evans 1838—1839.

YR ONNENFAWR.

William Rees, Cwmwrdu (supply) 1839—1843.

Benjamin Davies.

John James, Gellionnen —1843—.

David Griffiths 1843—1849.

Titus Evans 1851—1864.

John Davies, Alltyplaca 1864—1865.

D. L. Evans 1865—1875.

John Evans 1875—1886.

Hanes Capeli'r Enwad yng Nghymru.

"CAPEL YR ONNENFAWR."

"Drain ac ysgall, mall a'i medd,
Mieri lle bu mawredd."

DYNA hanes yr Onnenfawr a neb yn gofalu! Hen fagwyr lwyd, dyna'i gyd a'r adar a'r creaduriaid gwylltion yn chwarae lle bu'n teidiau yn gweddio Duw.

Y mae'n ddiddorol gweld y ffwdan a'r drafferth a gai'n teidiau wrth geisio addoli Duw. O gymharu eu sel hwy a'n difrawder ninnau, y mae'n ddigon i beri i ni blygu pen mewn cywilydd.

Yn Llandyfaen yr oedd hen Gapel Catholig ac ynddo ffynnon Sanctaidd—tebig i gannoedd o ffynhonnau tebig ar hyd a lled y wlad. Bu'r ardal yn gatholig yn hir oherwydd ceir yn Gaol Files Co. Carmarthen,—

"Recusants in Carmarthenshire 1637.

The names of all the persons that were presented for recusants * * on Monday being 17 day of July 1637 within the archdeaconry of Carmarthen.

Llandilofawr. II."

Am gan mlynedd wedi hyn fe fu yma lawer pabydd digon tebig yn yr hen ardal cyn i'r Anghydffurfwyr aflonyddu ar yr Eglwyswyr.

Beth bynnag am hyn, yn 1748 daeth y Parch. Peter Williams i bregethu ond odid i'r hen gapel Catholig a chafodd dderbyniad croeshawus. Daeth eraill yma yn eu tro ac yn eu plith y Parch. Evan Griffiths, gweinidog Ariaidd Capel Seion a phregethwr hefyd yng Ngwynfe. Achlysurol dros dro bu'r ymweliadau hyn ond tua 1768 cafodd y Presbyteriaid neu'r Annibynwyr gennad i bregethu lle bu'r pabydd yn gweddio ar y Forwyn Fair. Y gweinidog oedd Thomas Coslet (aelod o Eglwys Gwynfe). Nid hir y buont yma cyn i'r Bedyddwyr ddod ar eu hol, a gellir meddwl fod ysbryd rhyddfrydig dros ben yn y perchennog oherwydd cawsant hwythau ganiatad i gynnal gwasanaethau yn yr hen gapel pabyddol. Fe drigai'r enwadau fel brodyr ynghyd dan 1788 pan ddefnyddiodd y Bedyddwyr y ffynnon Sanctaidd i weinyddu bedydd trwy drochiad ynddi. Dyma oedd cynhyrfu'r dŵr mewn gwirionedd. Yr oedd

hyn yn ormod i'r hen ysbrydion ddal. Daeth anghytuno a dadleu yma. Ceisiwyd cael gwared o'r Bedyddwyr ond ni ffafrai'r perchennog y naill yn fwy na'r llall. Yr oeddent i gynnal eu gwasanaethau bob yn ail!

Tua diwedd y ddeunawfed ganrif teimlodd Eglwysi y Bedyddwyr gynnwrf yn y gwersyll ac aeth nifer fawr drosodd at y Bedyddwyr Cyffredinol. A siarad yn gyffredinol, yr oedd yn nifer fawr o Eglwysi y Bedyddwyr ddau barti—y blaid Arminaidd a'r blaid Galfinaidd. Yr oedd hyn yn wir hefyd am lawer o Eglwysi'r Annibynwyr gyda llaw. Felly ydoedd o leiaf yn Eglwys Llandyfaen Y gweinidog ydoedd y Parch. Moses Williams—gof wrth ei alwedigaeth, a chofleidiodd ef a mwyafrif mawr o'i gynulleidfa y syniadau Arminaidd tua 1798. Collodd y blaid Galfinaidd dir a chalon am dro ond dychwelasant gydag egni ar fyr. Bu'n lled gynhyrfus yma ym mlynyddoedd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Heb fod yn hir iawn apeliodd yr Undodiaid hefyd at John Pugh, Green Hill, Llandeilo, perchennog y Capel Shiprys—y capel pabyddol—am ganiatad i gynnal gwasanaethau ynddo a chydsyniodd a'u cais. Tua'r adeg yma (rywbryd tua 1807/8) yr oedd yn Llandyfaen dri gweinidog—tri o Ruffyddion—William Ruffydd, Tirpant (Bedyddiwr), William Ruffydd, Tanykincod (Annibynwr) a Jac Ruffydd, Llandebie. Yr oedd yn amhosibl i bethau fod fel hyn yn hir ac yn 1808 symudodd y Bedyddwyr i Soar a'r Annibynwyr i Ffairfach gan adael hen gapel Llandyfaen ym meddiant yr Undodiaid. Yr oedd y Parch. Moses Williams yn pregethu yng Nghapeli Castellnewydd Emlyn ac Aberteifi yng nghyfarfodydd y Bedyddwyr Cyffredinol yn 1807 ond nid oes gofnod iddo erioed bregethu yn Llandyfaen wedi iddo ddod i feddiant yr Undodiaid. Erbyn 1813 yr oedd wedi ail weld y golau ac wedi ei dderbyn yn ol gan y Bedyddwyr.

Yr oedd ysbryd cenhadol ym Moses Williams ac yr oedd wedi sefydlu cynulleidfa o Fedyddwyr ym Mhontbrenaraeth, ond y drwg amdani doi Jac Ruffydd yma unwaith y mis o Landebie gan droi meddwl y gynulleidfa at Undodiaeth. Ni fu yma fawr o lewyrch ar yr achos a diffoddodd tua 1815.

Yn 1799 codwyd Capel Bethel, Llangendeirne ac ymunodd yr eglwys a'r Bedyddwyr Cyffredinol gyda William Thomas yn Weinidog a cheir ar garreg ei fedd,—

"Here lieth William Thomas, the first Unitarian Minister of this Church, until the resurrection who died Dec. 26, 1813."

Wedi marw William Thomas, llwyddodd y blaid Drindodaidd i gael meddiant o'r capel a chyfarfu yr Undodiaid ym Mhontantwn

ar dir y Wempa, ac wedi hyn mewn ffermdy o'r enw Gelli yn agos i Landyfeilog o 1825 i 1846.

Digwyddodd yr un peth yn Eglwys y Bedyddwyr yng Nghwmdu a chododd y blaid Arminaidd gapel iddynt eu hunain rhyw ddwy filltir o Gapel Cwmdu ar hewl Llandeilo ond bu'r achos farw a syrthiodd yr adeilad i ddwylo Eglwys Cwmdu.

Yr oedd yna achos bach arall yn y Mynyddbach ger Llandeilo. Eglwys y Bedyddwyr Cyffredinol ydoedd ond gwan ac eiddil fu hyd ei marw.

"The Small Society assembling for Divine Worship at Mynyddbach Nr. Llandilo was Oct. 10, 1810, recommended by the ministers to the Committee of the Unitarian Fund for pecuniary support. John Symon (Minister of small society of General Baptists assembling at Mynyddbach near Llandilo) and we or two of the principal contributors to the support of the interest there having died." (M.R. 1811. P. 108).

Yn hanes Lyons'tour Mids. 1811, M.R. P. 688 ceir :—

"Preached at the house of Mr. Griffiths of Llandebie. I preached to a large congregation of people, many of whom came a considerable distance. Mr. Griffiths the Unit. Bapt. Minister at this place (Llandyfaen) is a plain man, etc. * * * and his labours in the midst of much opposition have been attended with much success."

Yn 1816 (M.R. P. 683) ni ddywed Wright ond "Mr. J. Griffiths of Llandebie an Unit. Bapt. preaches to this and several other such congregations." Fe geir esboniad ar "several other such congregations" o gofio am Bontantwn a'r Gelli, Pontprenaraeth, Cwmdu a Mynyddbach y soniwyd amdanynt uchod.

Yr oedd "rhuddin" yng nghymeriad Jac Ruffydd. Nid oedd ond teiliwr tlawd wedi ei eni ac wedi byw ei oes yn Llandebie, ond gellir edrych arno fel "Cenhadwr Undodaidd" ynghylch Llandeilo.

Ymneilltuodd o'r weinidogaeth yn 1838 a phregethodd y tro olaf yn agoriad Capel yr Onnenfawr.

Wedi crwydro, rhaid mynd yn ol ddeng mlynedd ar hugain lle gadawsom yr Undodiaid ym meddiant o hen gapel Llandyfaen. Yr oedd y gynulleidfa ieuanc yn byw ar waethaf pob drygair ac erlid a Jac Ruffydd yn ei bugeilio.

Ond yn 1838, agorodd yr Athro D. L. Evans—yr hen Broffesor Evans—yn llanc ieuanc o'r Coleg Ysgol yn Llandeilo gan gymryd gofal yr eglwys fach yn Llandyfaen oddiar ysgwydd Jac Ruffydd. Canfu rhywun neu rywrai ond odid eu cyfleu. Disgwylid i Landyfaen ddilyn y lleill i'w cynnar fedd ond pan welwyd yma weinidog ieuanc brwdfrydig, rhaid oedd rhoi atalfa ar ryfyg yr hereticiaid. Medrent oddef hen wr fel Jac Ruffydd ond nid gweinidog ieuanc fel D. L. Evans. Bellach yr oedd eisiau'r hen gapel ar yr Eglwys.

Fe geir y stori yn llythyr D. L. Evans at John James, Gellionnen.

Llandilo, 21. Nov., 1838.

Dear Sir :

We know not what may happen in a day. Since I saw you last what I am going to inform you has occurred to me. We are deprived of Llandyfaen Chapel. We had notice to quit last Saturday ; it is to be annexed to the Church. I do not know what motive induced them to make use of it now, more than before for that purpose. Next Sunday will be the last for me to preach in it. We do not know what to do henceforth ; there is not a convenient house for us to rent in the neighbourhood. We must go from house to house, which will be very unpleasant : all the same we expect to see you the Sunday we agreed, then you shall know of the particulars.

I am,

Your sincere friend,

D. Evans.

Nid oedd fan cyfleus i godi capel newydd a phan gawd tir gan Gapten Hughes, Tregib i godi Capel yr Onnenfawr rhyw ddwy filltir o Landeilo ynghyfeiriad Castell Carreg Cennen, nid oedd y man yn addo llwyddiant mawr. Cyn ei agor, yr oedd y Parch. D. L. Evans wedi symud i ddwy eglwys fechan yn Swydd Rhydychen.

Yn 1843 daeth David Griffiths brodor o Landysul yma i gadw ysgol ac i fugeilio yr eglwys fach. Ni fu yma ond chwe mlynedd. Ar ei ol daeth y Parch. Titus Evans, D. L. Evans a John Evans, Gellionnen, ond "dynion dwad" oeddent heb neb i gysegru'i oes i grynhoi cynulleidfa a gofalu amdano yn yr Onnenfawr. Yn 1886 fe gauwyd y capel ac yntau ond 46 mlwydd oed. Ymhen deng mlynedd yr oedd yn bwll a heb ddim ond yr adfeilion heddiw i ddweyd wrth bererin hanes 'slawer dydd.

Y mae'r wers yn ddigon plaen. Ni fedr cynulleidfa fyw fel pelican yn yr anialwch. Collwyd cyfleu yn ardal Llandeilo yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan adawyd Llandyfaen yn *unig*. Heddiw wrth rodio ymhlith yr adfeilion gan edrych ar y dyffryn prydferth odditanaf dychmygaf glywed ysbrydion 'slawer dydd yn sibrwd wrth y gwynt o ymweled a'r Capeli ar hyd a lled y fro, " Os ceisiasom ni yn rhy gynnar, fe ddaeth yr ysbryd rhyddfrydig ' yn ei amser da Ef ei hunan '."

O.

De Profundis.

RHYW ddau Sul yn ol bum yn y Rhondda a chyn deall cyni a chyfyngder diwydiant rhaid mynd yno. Y mae trueni a diffyg gobaith i'w ganfod yn nhrem y plant ac anodd yw edrych ym myw llygaid undyn heb deimlo. Dywedaf hynyna rhag i rywun dybio na wn neu fy mod yn ddifater.

Cefais wahoddiad gan Eglwys Glanrhondda (Treorci) i wasanaethu am Sul yno ac nid yw'n edifar gennyf i mi dderbyn y gwahoddiad. Gobeithiaf y medrant hwythau ddywedyd yr un peth. Yr oedd yn dda gennyf am y cyfleu er gweld brwydr galed Eglwysi'r Rhondda. Ni wyddom ni yma nemor am galedi na'r pwerau yr ymdrechant hwy yn eu herbyn, ac o galon y dywedaf ein bod yn " rhwym " gyda hwy. Rhowd ffigurau gan Ysgrifennydd Eglwys y Cefncoed a dywedai fod chwe chant o lafurwyr rhwng 16 a 60 oed yn y Cefn a than dri chant yn gweithio. Rhwydd credu na fedr pethau fod rhyw lawer yn waeth nag ydynt. Ni fedr calon onest anwybyddu y gri o'r dyfnder—De Profundis. Y mae hynyna'n ddigon plaen cyn dechrau ond awgrymaf yn garedig a'm calon yn gwaedu fod yna ochr arall—nid yr ochr ddiwydiannol ond yr ochr ysbrydol. Perigl eglwys a gwlad yw pwysleisio yr olwg economaidd ar draul anghofio ac anwybyddu y wedd ysbrydol. Hyd y medraf i weld, y mae'n bryd cofio fod i bob cwestiwn—cwestiwn addysg—cwestiwn diwydiant—a chwestiwn yr eglwysi wedd ysbrydol a cholli'r dydd a wna eglwys a gwlad oni thwng wrth uchafiaeth yr ysbrydol.

Dyna'r meddyliau a ddoi i mi ar brynhawn Sul yn y Rhondda ac wrth wrando y ddadl—dadl rhwng yr olwg economaidd a'r olwg ysbrydol—yng Nghyfarfodydd Chwarterol Cymdeithas De-Dwyrain Cymru yn Abertawe.

Cyn dod at y cwestiwn o'r Eglwysi neu'r pulpudau gwag na'r ddadl, y mae'n werth cofio fod yna *ddeputation* o'r Gymdeithasfa Gyffredinol wedi ymweled a'r Eglwysi y Sadwrn cynt ac yr wyf innau am fynd gyda hwynt yn yr ysbryd er gweld :

CAPEL CWMBACH. Nid oes eisiau prydferthach capel ar unrhyw gynulleidfa. Capel ail-law oedd ar y dechrau, cynulleidfa o Fedyddwyr wedi codi capel eangach a'r hên ar werth. Yr oedd yma "ddyrnaid o Gardis" yn Undodiaid a phrynodd dau aelod o'r Hen Dy Cwrdd, Aberdâr, Rees John David a Thomas Thomas, Cefnpennar, y capel am ganpunt a thalasant amdano. Ar y drydedd ar ddeg o Chwefror 1849 y pregethodd y Parch. E. W. Lloyd, Blaengwrach yma y tro cyntaf. Yn 1866 codwyd ty i'r gweinidog ac yn 1879 adeiladwyd y Capel hardd presennol y sy'n wâg ers llawer dydd.

E. W. Lloyd 1859—1892.
John D. Jones (Clunllwyd Cribyn) Cynorthwywr 1884—1886.
David Aeron Thomas Ionor 1892—Tachwedd 1892.
John Fisher Jones 1893—1897.
John Evan Jones 1898—1900.
David Evans 1901—1906.
Supplies 1906— (Ymof. 1901, td. 256).

Wedi'i gau ers blynyddoedd bellach.

DOWLAIS : Ar Dachwedd 1861 pregethodd y Parch. Owen Evans, Cefncoed yn Nowlais a phregethai bob mis yno hyd ei farw yn 1865. Ni wnawd dim yma eilwaith am ddeng mlynedd hyd ail gychwyn yr achos gan y Parch. John Davies, Alltyplaca a phregethwyd yma gan y Parchn. R. J. Jones, William James a J. Hathren Davies yn ystafell hir tŷ tafarn. Yn 1878 penderfynwyd codi Capel newydd ac ar Hydref 3, 1881 agorwyd y Capel Newydd.

John Hathren Davies 1881—1882.
Wm. Jenkin Davies 1882—1889.
Dd. Ifor Davies 1891—1894.
James Ewart Jenkins 1897—1901.
J. Penuel Kane 1902—1912.
Supplies 1912—1915.
D. Cellan Evans 1915—1916.
Supplies 1916—?

Wedi ei gau ers tro.

CLYDACH VALE : Dechreuwyd yr achos yng Nghlydach Vale yn 1893 ac agorwyd capel yma ar Ragfyr 1, 1895—y capel a'r tŷ wedi costi £686.

Dr. Wm Griffiths 1893—
Dd. Ivor Davies.
David Rees 1898—1903.
David Rhoslwyn Davies 1903—1907.
Evan Rhys Dennis 1908—1916.

Deallaf fod Capel Clydach Vale wedi'i werthu bellach.

GLANRHONDDA neu PENTRE : Nid oes brydferthach capel na chynulleidfa fwy *homely* yn y Rhondda nag yng Nglanrhondda ac i bob ymddangosiad y mae'n dal ei thir. Y mae'n amheus gennyf onid oes mwy o Undodiaid yn y Rhondda nag sydd yn tywyllu drws y capel bach prydferth hwn. Agorwyd y Capel ar Chwefror 2, 1896.

Dr. W. Griffiths, 1893—.
D. Ivor Davies, 1894—1896.
D. G. Rees 1898—1903.
D. Rhoslwyn Davies, 1903—1905.
Supplies 1906—1908.
E. R. Dennis 1908—1916.
Supplies 1916—1917.
E. Rosalind Lee 1917—1920.
Supplies 1920—.

MOUNTAIN ASH : Fe fu cynnwrf ym Mountain Ash ac fe ddaeth y Parch. G. Neighbour a nifer o'i gynulleidfa drosodd atom. Y mae'r Brotherhood Church, Napier Street, heddiw heb weinidog ac y mae gofyn cerdded yn wyliadwrus os am gerdded yn ddiogel.

Ofer sôn am Dylorstown a mannau eraill. Y mae Cefncoed heb weinidog er i'r Parch. Eric Davies, ymadael am yr Amerig yn 1925 a dywedir fod yna Ysgol Sul o 120 a'r gynulleidfa'n dal ei thir, ond y mae rhywbeth yn eisiau yma gan ei bod yn dewis *hall* o flaen gweinidog. Ni fu Merthyr erioed ellid tybio yn rhyw hoff iawn o weinidog a da ydyw deall fod Herbert Jones y sy'n gwasanaethu yma yn gwneud gwaith da. Os pum mlynedd ar hugain ni fu gweinidog yma ond am ysbaid fer,—D. Cellan Evans 1915—1916 ac E. T. Evans 1920—1924. Dywedir iddi drwy fyw heb weinidog glirio'r ddyled a oedd yn aros. Y mae hynyna ar ryw olwg yn dda ond cwestiwn arall yw, a gollodd fwy na'r ddyled ; colli'r gynulleidfa a phob rhagolygon !

Y mae **PONTYPRIDD** hithau yn dra hoff o *supplies*. Ni feiaf y cynulleidfaoedd hyn am na wn yr amgylchiadau i gyd, ond yn ystod y chwe mlynedd ar hugain er cael y Parch. Simon Jones, B.A., yn weinidog, y mae Supplies wedi gwasanaethu yma am hanner yr amser. Nid wyf yn sôn am fro Morgannwg ar hyn o bryd. Dyna gipdrem afler a brysiog ar yr eglwysi er deall yr amgylchiadau.

Paham y mae cynifer ohonynt heb weinidogion? Nid prinder gweinidogion yn gymaint a'r cwestiwn economaidd y sy'n blino'r eglwysi. Y mae rhai o'r eglwysi neu dyweder y mae'r oll o'r eglwysi yn rhy wan dan yr amgylchiadau presennol i gynnal gweinidog, ond fe ddaw'r cwestiwn, Paham na roir un gweinidog i ofalu am ddwy eglwys? Tybed dros dro hyd nes gwella o'r sefyllfa economaidd na cheir Cefncoed a Merthyr i dderbyn yr un weinidogaeth. Felly hefyd gyda'r eglwysi eraill.

Y mae'r sefyllfa yn dywyll. Ni wn i mo adroddiad nac awgrymiadau y *deputation* ond fel gŵr dieithr na fyn ymyrryd a chwestiynau tu allan i'w gylch ac eto y sydd yn caru'i enwad a chariad angherddol yr wyf am apelio at y cynulleidfaoedd ar lefel uwch—lefel cariad at enwad, ie, lefel cariad at gyflwr moesol ac ysbrydol yr ardaloedd. Sudded pob cynulleidfa a phob aelod ei falchder a'r mân wahaniaethau dibwys er mwyn y genadwri y sydd wedi ei hymddiried inni. Oni wneir rhywbeth a hynny ar fyr ofnaf y bydd yn rhy ddiweddar. A ydyw yn werth peryglu'r mudiad er mympwy na dim?

Apeliaf er mwyn y mudiad ac er mwyn y gwirionedd ei hun, at bobun a gar y neges a bywyd ysbrydol i gofio ymdrech ac aberth y teidiau, gan geisio gwneud rhywbeth yn ein hoes a'n dydd er diogelu'n treftadaeth i'r genhedlaeth a ddaw ar ein hol. Ni ofnaf yn gymaint am yr enwad fel enwad ond y mae'n bryd codi llais yn erbyn llanw cryf materoliaeth y sy'n llifo drwy Forgannwg a lleoedd eraill.

Saif Eglwys Dduw dros yr anweledig mewn bywyd a phan y'i symudir ni fydd dim i gyfeirio meddwl ardal at Dduw.

Ni cheisiaf orchymyn yr eglwysi. Nid yw'r awdurdod gennyf. Ni ddefnyddiwn mohono pebai gennyf ond apeliaf atoch i ystyried fy apel yn yr ysbryd y'i gwneir ac yn ysbryd Iesu ei hun.

"*Y Ffordd yr Edrychaf ar Bethau.*"

(Parhad.)

CRYNHOAF y gweddill o'm sylwadau ar lyfryn y Parch. T. Nefyn Williams tu fewn i gwmpas cyn fyrred ag y medraf. Beth a ddywed am ddioddefiadau Crist? Nid "i heddychu Duw" a "newid ei feddwl am ddynion" nac "fel lawn gwaedlyd i'r Goruchaf" y bu Crist fawr. Eto gwêl ogoniant a gras ym marwolaeth Calfaria."

Sylwer ar a ganlyn: "Crist sydd yn rhoi i'r Groes ei hystyr a'i gogoniant. Digwyddiad yn hanes y Crist oedd y groesbren, ac nid teg yw dweyd fod cysgodion y groes ar gynlluniau cynnar Duw . . . . . Eithafbwynt ei fywyd oedd marw'r groes. Pen draw bywyd o aberth ac o ymlyniad wrth gariad a gwirionedd ydoedd." Beth am yr atgyfodiad? Ymwrthodir â'r syniad o atgyfodiad corff, ond delir "gafael yn y gred mewn anfarwoldeb." Golyga hyn na chred "mewn atgyfodiad corfforol yn hanes y Crist." "Credaf yn anfarwoldeb Iesu," fe ddywed, "ond nid yn ei atgyfodiad." Pwy, ynteu, a fydd anfarwol? Y mae "bywyd tragwyddol yn agored i bawb," eithr dim ond "y Da a'r Pur" a fydd "anfarwol yn y pen draw."

O ddarllen a ddywed ar anfarwoldeb ymddengys fel pe bai safle'r awdur ar y mater ydyw a elwir yn gyffredin yn "anfarwoldeb amodol." Oblegid dywed: "Gwelaf ym mywyd y byd hwn a'r nesaf rhyw broses ddeublyg . . . . . Gwelaf y bywyd sydd a delw Realiti a phurdeb arno, yn ymsymud tua gogoniant llawnach o hyd . . . gwelaf y bywyd sydd ag argraff rhagrith a hunanoldeb arno, yn araf ymsymud tua difodiant." Datblygiad tua sylweddoliad llawnach o'r Dwyfol: dyna un agwedd o'r oruwchwyliaeth. Dirywiad tua difodiant: dyna'r agwedd arall. Swnio'n debig iawn i wir a wna'r syniad hwn. Ond—ai gwir ydyw—i gyd? Yn wyneb y gofyniad mawr hwn, rhaid bod yn wylaidd iawn, a chydnabod gyda Gwilym Marles (ar ol Tennyson) mai baban yw dyn "yn crio yn y nos, yn crio am y wawrddydd dlos, heb un iaith" ganddo, "onid cri." Eithr gwell gennyf syniad Gwilym, eto, yn yr un Emyn: "O'm hyder yw mai rhywfodd da fydd diwedd *pob dacarol foes*," ac "na theflir dim i ddamniol nyth," nac i difodiant neu ddiddymdra, "pan ddyco Duw i ben ei waith." Anwybodus iawn pan ddaw wyneb yn wyneb â'r llen ar derfyn bywyd. Gyda llaw, peidied y Gol. a thynnu'r bensil glas trwy'r "O'm" ar ddechreu'r pennill uchod.

Eiriolaeth sydd fater arall a dyn fy sylw. Oes i Eiriolaeth le yn yr olwg newydd ar bethau? Oes; eithr nid y lle a roddid iddo yn yr hen ddiwinyddiaeth. Eiriolaeth i gyfeiriad Duw oedd yr hen Eiriolaeth—Crist yn Eiriol (yn erfyn) ar Dduw i faddeu i bechadur. Try ein hawdur yr Eiriolaeth i gyfeiriad dyn: "Meddyliaf am yr Ysbryd Mawr oedd yng Nghrist yn eiriol dros y da a'r gwir yng nghalon dyn." Dyna ddigon ar y pen hwn.

Dyma ddyfyniad a'm gogleisiodd i ryw fesur: "Deallaf fod cwyn am nad arferaf enw yr Iesu ar derfyn fy ngweddiau. Oherwydd hynny neidiodd rhai i'r casgliad mai Undodwr oeddwn." Wn i ddim yn gywir ymha oleu y dylwn ddeall y cwyn—ai fel math ar ganmoliaeth, ynteu fel condemniad o'r hyn a dybir yn arferiad Undodaidd yn y mater o weddio. Yr olaf, yn o debig. Yn unrhyw achos, nid yw'r ffaith y gwrthyd Mr. Williams derfynu'i weddiau trwy arfer enw'r Crist a'i gwna'n agored i'r cyhuddiad o fod yn Undodwr. Ni chred un Undodwr, mwy na Mr. Williams, y perthyn i eiriau neilltuol unmath ar swyn—hyd yn oed i'r gair Iesu neu'r gair Crist neu'r ddeuair gyda'i gilydd. Chlywais i erioed fod Undodiaid yn eu cylymu eu hunain wrth un reol-, parthed y mater. Daw enw Iesu yn naturiol i mewn i weddi weithiau, naill ai yng nghorff y weddi neu ar y terfyn: pryd arall ni ddaw.

Bradycha gelynion Mr. Williams gryn anwybodaeth parthed Undodiaid ac Undodiaeth pan ddygant y fath ar gyhuddiad a hyn yn ei erbyn. Na, rhaid iddynt chwilio am ryw reswm arall na hwn cyn ei gyhuddo o fod yn Undodwr. A beiddiaf ddywedyd na raid iddynt fynd tu allan i gloriau'r llyfryn "Y ffordd yr edrychaf ar bethau" cyn cael ohonynt faint yn y byd a fynnont o'r cyfryw resymau.

Bedydd, gweddi, y Beibl, yr Eglwys: dyry bennod i'r ymdriniaeth o bobun o'r pynciau hyn. Gall y sawl a ddarllenodd y llithiau hyn yn hawdd ddyfalu beth a feddylia'r awdur—hyd pa fath ar linellau y rhed ei feddwl yn yr ymdriniaeth ohonynt. Materion a ddeil berthynas â threfniadaeth yw'r rhan fwyaf o'r gweddill o'r llyfr: ac ni alwant am un sylw yma, gan na feddant ddiddordeb mawr i'n darllenwyr.

O dathu golwg frysiog dros y maes i gyd, beth a ddywedaf. Ymgais at ateb yr hen ofyniad "Beth yw gwirionedd?" neu, mewn ffurf arall, "Beth yw y gwirionedd?" a geir yma. Ac ymgais dda iawn o foddhaol ydyw. Eithr y teimlad a'm meddianna ydyw—mai'r un fath ar ddedfryd a haedda'r ymgais hon fel pob ymgais arall a wnaed erioed, sef, damcaniaeth. Damcan-

iaeth ydyw pob ymgais i ateb y gofyniad a ennwyd. Ni ddaw dyn i feddiant o'r ateb llawn iddo—ar y ddaear, o leiaf. Dyna beth ydyw pob-math ar ddiwinyddiaeth a gynlluniwyd gan feddwl dyn erioed—damcaniaeth; hyd yn oed pob ffurf Gristionogol o ddiwinyddiaeth. Eithr fel yr amrywia'r sêr mewn gogoniant, felly amrywio a wna gwerth damcaniaethau diwinyddol. Swnio'n arw—yn arw iawn yn fynych—a wna ambell i ddamcaniaeth ddiwinyddol. Ni fedraf ddarllen "Credo Sant Athanasius," er enghraifft, heb i don o arswyd dreiddio trwof, a pheri imi synnu ddarfod i neb erioed roddi ffurf eiriol i'r fath feddyliau gwaradwyddus, gan eu bedyddio yn enw Cristionogaeth. Effaith lled debig a gaiff a elwir yn "uchel-Galfiniaeth" arnaf. A diolchaf o galon na raid imi gredu yr un ohonynt. Posibl ydyw yr arswyd llawer a dderllyn lyfryn Mr. Williams, oblegid y gwelant ynddo wyrdroad, efallai dinystr, o bopeth a arferent ystyried fel y "ffydd a draddodwyd unwaith i'r saint." Eithr i eraill na ellir dywedyd eu nifer, dwg y llyfryn genadwri yn ei gol a dyry iddynt olwg newydd, mwy cyfoethog o ffydd a gobaith, mwy cydfynedol â meddyliddrychau goreu'n hamser, ar bethau, nag a fedrai dim arall ei wneuthur. A chan nad beth a fydd ffurf crefydd y dyfodol, tra sicr ydyw y rhaid iddi redeg hyd llinellau tebig i eiddo "Y ffordd yr edrychaf ar bethau."

Beth a ddywedaf ymhellach? Am yr awdur—un o broffwydi Cymru'r ugeinfed ganrif, y cyffyrddwyd â'i wefusau (ac â'i galon) gan farworyn oddiar yr allor, gan beri iddo lefaru a welai ac a deimlai ac a gredai Am y llyfryn—un o arwyddion yr amserau, a dengys i ba gyfeiriad y mae meddwl crefyddol ein hadeg yn tueddu i symud. A thra sicr ydyw, er y syrth i ran yr awdur gryn fesur o erlid a chas a dioddef, ac er y cyhoeddir aml i anathema uwch ben y llyfryn, y caiff pobun o'r ddau dderbyniad a gwrandawiad. Ac eidduno bendith Duw ar lafur yr awdur a wna pobdyn o feddwl rhyddfrydig.

D.E.

Y Star Garreg.

YMAE stâr garreg yn ein tŷ ni, stâr debig i stâr storws ond rywfaint yn well hwyrach. Nid oes nemor o grefft arni ond ni welais i grefft ar un stâr garreg erioed. Y maent yr un fath yn gywir—mor union a saeth a chyn galeted a'r garreg. Y mae rhyw ychydig o roi mewn stâr bren, ond pwy glywodd am stâr garreg yn *rhoi* hyd nes iddi flino. Nid oes dro ychwaith mewn

stâr garreg a charaf i dro mewn stâr. Fe geir hoe felly tua'r hanner. 'Rwyf wedi cerdded yr hen stâr am tlynyddoedd heb gyfrif y steps. Ddoe bum yn eu cyfrif a chefais eu bod yn dair ar ddeg. Os oes coel ar yr hen wheddel y mae'n anlwcus. Gwn fod un o leiaf yn ein tŷ ni yn credu'r wheddel. Hwyrach ei bod yn wir er na chredaf mohoni ond pwy wyr.

Y mae'r hen stâr mewn cornel tywyll. Rwyf i yn caru golau ar stâr o bobman ond ni wn i ble i'w rhoi neu buaswn wedi ei symud ers tro. Dyna'r broblem gynt debig iawn. Y mae ambell beth a dim ond un man iddo a hwnnw'n fan digon anghyfleus yn aml. Dyna fel y mae gyda'r stâr o leiaf a rhyw gerdded wrth ffydd y byddys ac nid wrth olwg. O gyfarwyddo a hi y mae'n gwella. Fe'i caeais i fyny dros dro. Nid pawb yr adeg honno a ofalai am stâr garreg yn ein ty ni. Ymhen tipyn fe symudwyd y barricade ac aeth popeth ymlaen yn iawn dros dro. Medrai rhywrai ei cherdded yn well na mi. Ni cherddais i hi erioed heb gydio'n dyn yn y ganllaw. Y mae gennych hyder wedyn o leiaf. Rhyw gamre petrus yw f'eiddo i ond medrai dwy ei rhedeg bob step. Ni ofalent am ganllaw na dim. Yr oeddent mor gyfarwydd nes dod drosti ar râs. a chwrso'i gilydd yn fynych iawn. Y mae nghalon i yn aros bob tro y'n clywaf yn rhoi troed ar y step uchaf. Ni wn pam ond y mae ofn y stâr)garreg arnaf. Chwarddai Nanna o'm gweld yn ofni a chredaf ei bod yn ei cherdded yn amlach a thrymach na neb er fy ngwylltu i. Yr oedd yn sier o'i throed. Nid oedd wedi cwympo erioed. Yr oedd gyda hi rhyw hyder gau ynddi ei hun. Nid oedd wedi cwympo ac felly yn ei thyb ei hunan nid oedd i gwympo.

Ac fel yr awel drosti ond un diwrnod fe ddoi a neges i mi. Yr oedd cymaint brys arni nes anghofio'i throed a cholli step. Dyna lef annaearol a'r cariad bach yn swp diymadferth ar waelod yr hen stâr—tair step ar ddeg a'i gwaed yn lliwio'r lle. Ymhen deuddydd yr oedd fel cynt ond rywsut yr oedd wedi heneiddio. Ni wn pam ond nid oes hanner yr ofn gynt arnaf. Y mae'r diniweidrwydd wedi mynd a thybiaf fod ei throed yn sicrach am fod profiad ganddi.

Edrychais droion yn ystod y ddeuddydd ym myw ei llygaid. Ni fedraf ddweyd beth ond yr oedd rhyw gyfnewid yma. Gynt teimlai nad oedd cwymp mewn bywyd ac mai pryder tad oedd yn ffurfio bwganau. Nid felly mwy. Fe gydia hithau yn y ganllaw ac y mae rhyw betrus yn ei cherdded. Drwy'r codwm fe agorodd byd newydd iddi. Deallodd na fedr cariad ond castellu o'i hamgylch a daeth wyneb yn wyneb a realiti bywyd. Fe gafodd godwm a chraith ond trwy'r codwm fe ddysgodd wers. Graddiodd

yn ysgol galed bywyd ac er y boen y mae'n deall bywyd yn well. Agorodd ei llygaid ar y byd a gwelodd fod yn rhaid iddi ymddiried ynddi ei hun, a thalu'n ddrud am brofiad ond na fedrir ei ennill yn un ffordd arall.

Droion wedi'r codwm yr wyf wedi edrych ar y stâr garreg ac ar bwys y tair step ar ddeg wedi deall athroniaeth bywyd—yn well hwyrach na thrwy un ffordd arall. Saif dros fywyd—taith mewn cornel tywyll ydyw. Awgryma'r steps anhawsterau bywyd a'r tair ar ddeg hwyrach yr anlwc sydd yma. Dringo ydyw a rhaid cerdded wrth ganllaw os am gerdded yn sicr. Ni welir y ganllaw bob amser; yr ym fel Nanna mewn gormod brys. Ni ddaliwn ar gyngor na chyfarwyddyd. Yr ym yn raso drwy fywyd ond cynt neu hwyrach fe ddaw inni ryw hyder gau a hynny ran amlaf o flaen cwymp. Fe gloffwn ninnau ac awn dros yr hen stâr yn bendramwnwgl gan deimlo yr adeg honno fod amgylchiadau caled bywyd yn dra thebig i steps yr hen stâr garreg. Y maent yn ein clwyfo a'n cleisio. Y maent yn peri poen a blinder inni. Gwelir arnom lawer craith a llawer clwyf.

O gyfarfod ag ambell i hen wr profiadol ceisiaf ddychmygu ba sawl tro y misiodd ef step ar yr hen stâr. Gwelaf graith ar arall a cheisiaf ddarllain pennod o'i hanes drwy ddehongli llaw fer natur ar ei gorff neu ar ei gymeriad. Ar bwys pob codwm yr ydym yn deall bywyd yn well rywsut. Ni charwn mohonynt ar y tro ond deuwn i weld nad ydynt ond ymgodymu a phroblemau bywyd. Wedi'r codwm ni fedrwn fod yr un byth mwy. Yr ym wedi ein dwyn wyneb yn wyneb a ffeithiau caled bywyd. Collasom rhyw gymaint o'n diniweidrwydd mae'n wir neu yn hytrach fe'i cyfnewidasom am brofiad.

Yr wyf wedi cerdded yr hen stâr droion wedi'r codwm ond nid stâr garreg mohoni mwy. Yn nhramp fy nhroed arni fe'i clywaf yn llefaru'n hyawdl. Ni ddyellir mo'i hiaith ar unwaith ond ar ol pob codwm y mae'n haws.

Daw bywyd a'i amgylchiadau annymunol a'i ffeithiau caled yn realiti byw a minnau'n deall fod pregethau yn y cerryg ac awgrym ym mhethau cyffredin bywyd. Wedi hyn, y mae gennyf fwy o olwg bob dydd ar yr hên stâr—trwsgl ei step ac anodd ei dringo a phan ofynnir imi am y bregeth hyotlaf a glywais erioed yn fy mywyd, ni wnaf ond tewi a mynd yn fud gan gyfeirio fy mys at hen gornel digon tywyll, a phe edrychech yno ni welsech ddim ond tair step ar ddeg i

Hen Stâr Garreg.

Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.

(Parhad.)

Felly rhoddodd Evan Lewis yr ysgol ddydd a agorwyd ganddo ac a gariwyd ymlaen mor llwyddiannus yn Heol y Porth Du Bychan, Aberystwyth i fyny, ond meddyliaf na pharhawyd hi gan neb arall ar ol ei ymadawiad am Gilgwyn. Dau o'r rhai olaf o'i hen ddisgyblion oedd y diweddar David Evans, saer, Heol Undeb (Union Street), a'r diweddar Rice Rees, cychwr (boatman), ill dau o Aberystwyth.

Pan ddaeth i Gilgwyn cymerodd i fyny ei breswylfod yn Olmarch Isaf, Betws Bledrws, a derbyniwyd ef gyda breichiau agored gan aelodau ei gapel a chan y trigolion yn gyffredinol. Capel Wesley Bach ydoedd Capel Cilgwyn y pryd hwnnw ac yr oedd felly hyd nes y tynnwyd ef i lawr yn 1839. Adeiladwyd y Capel Wesley newydd ger Llangybi, pellter o tua milltir. Pan agorwyd y capel newydd, cyfansoddodd Evan Lewis yr emyn canlynol ar yr achlysur yr hwn a ganwyd ar Sul yn Awst, 1840.

" Ein pabell hon, O Arglwydd hael
Nid yw ond gwael Dy gymell,
Gan mai Un parod ydwyt Ti
Os byddwn ni'n ddiddichell.

Am hyn erfyniwn it lanhau
Cuddiedig giliau'r galon
Oddiwrth bob brad a dichell dig
Meddyliau sarug surion.

Ac yno triga'th Ysbryd pur
Mae hyn yn eglur inni,
I'n mysg o fewn y babell hon
A phawb o'r bron ddel iddi.

Ac felly bydd Dy fawl o'i mewn
A ninnau a ddown yn ddawnus,
O nerth i nerth gwir gynnydd gawn
Mewn grâs yn llawn gysurus.

Pan y penderfynodd yr aelodau i adeiladu capel newydd yn Llangybi, gwnaeth Evan Lewis bopeth yn ei allu i roddi cymorth. Tynnwyd hen gapel y Cilgwyn i lawr, cludwyd y defnyddiau mewn cert, a beth bynnag oedd yn gwneud y tro a ddefnyddiwyd yn adeilad y capel newydd. Dechreuodd ar ei ddyletswyddau a chariodd ei weinidogaeth ymlaen o ddifrif.

Ar ol iddo fod yng Nghilgwyn am dipyn o amser, sylweddolodd yn fuan nad oedd Ysgol Ddydd yn y lle, a gwelodd fod gwir angen am dani ac y dibynnai iechydwriaeth y genhedlaeth ddyfodol i raddau helaeth ar yr addysg gyfrennid i fechgyn a merched Cilgwyn, Llangybi a'r gymydogaeth yn gyffredinol. Felly penderfynodd gychwyn un, ond ni allaf ddweyd yn iawn pa bryd y cymerodd hyn le, ond fe agorodd un yn Llangybi.

Yn ei lyfr "Dydd y pethau bychain" yr hwn sydd yn llawysgrif Evan Lewis ei hun, ac y gellir ei weld yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, y mae amryw gofnodiadau ynghylch yr Ysgol Ddydd ond dyma'r cyntaf mor bell ag y gellir sicrhau.

"Dechreuodd yr Ysgol Ddydd yn y flwyddyn 1857 yn Llangybi."

Yn y chwarter cyntaf o 1857 roedd ganddo 44 o ysgolheigion.
Yn yr ail gwarter o 1858 roedd ganddo 20 o ysgolheigion.
Yn y trydydd chwarter o 1859 roedd ganddo 47 o ysgolheigion.
Yn y pedwerydd gwarter o 1859 roedd ganddo 46 o ysgolheigion.

Ond fy marn i yw fod yr Ysgol Ddydd wedi ei chychwyn ganddo lawer o flynyddoedd cyn 1857. Dichon fod amryw o'i hen ddisgyblion ac eraill eto'n fyw all roddi inni wybodaeth ddilys a thaflu rhyw oleuni ar y pwynt. Prin y gallaf gredu iddo aros yng Nghilgwyn a Llangybi o 1820 hyd 1857, cyfnod o ddau ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd, neu'n wir o fewn saith mlynedd i'w farwolaeth yn 1864 heb gychwyn Ysgol Ddydd.

Yr oedd agoriad y fath ysgol yn fater a wnai apelio'n gryf iddo am ei fod yn hoff angerddol o ddysgu plant fel y gwnaeth yn Aberystwyth. Tra'n byw yn Olmarch Isaf ganwyd ei feibion William a Thomas. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf o'i weinidogaeth yng Nghilgwyn gweithiodd yn galed yn fore ac yn hwyr ymhlith aelodau ei braidd ei hun trwy orchymyn ac esiampl i hyrwyddo a lledaenu achos ei Feistr. Ai oddiamgylch yr holl bentrefydd yn y gymydogaeth hefyd a thrwy ei bregethu galluog a'i fywyd duwiol yn ymweled a'r claf a'r methiannus ymysg holl bobl yr ardal. Yr oedd i'r Ysgol Sul hefyd gongl gynnes yn ei galon. Yr oedd yn un o'i hoff gynlluniau a gwnaeth hi yn llwyddiant a thrwy'r moddion hyn, ac yn cael ei gefnogi gan ei eglwys, gwyddai ei fod yn cyfrannu addysg grefyddol ynghyd a'r wybodaeth roddid i'r plant yn yr Ysgol Ddydd, a'i fod yn adeiladu ar sylfaen sier galed, yr hon a wnai ddal trwy eu bywydau, a daeth y gwaith a wnaeth yn allu er daioni.

Marwgofion.

Cywiro Gwall.—Wrth groniclo marwolaeth Mary Anne Jones nee Jenkins o Danyrallt, Cwrtnewydd, gynt, ond wedi hynny o Forgannwg, digwyddodd enw ei mam lithro allan. Bydd yn dda gan nifer luosog wybod nid yn unig fod y fam yn fyw ac mewn iechyd gweddol ond ei bod hefyd gyda'r pedwar amddifad bach. Nerth a gaffo i fod yn fam iddynt tra gallo.

Ionor Lleg yn Brynllwyd, Llanwenog, yn nhŷ ei pherthynasau, y rhai fu yn gofalu yn gariadus am dani am rai misoedd, Jane Hopkins, yn 73 mlwydd oed. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Capel y Bryn, Cwrtnewydd, a gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y Capel gan ei gweinidog y Parch. S. E. Bowen, ac ar lan y bedd gan y Parch. V. Pughe, gweinidog y Bedyddwyr.

Blin iawn gan lawer o'i chyfeillion fydd clywed am farwolaeth Miss Mary Evans, 10, Broniestyn Terrace, Aberdâr. Bu farw dydd Gwener, Ionawr 17, 1930, yn 56 oed. Yr oedd hi wedi bod yn yr Iwerddon yn agos i 20 mlynedd, yn cadw tŷ i'r Parch. Mathew Watkins, ac ar ol hynny i'r Parch. A. M. Bell, Ballyclare. Bu yn glaf am rai misoedd a dioddefodd boenau mawr yr wythnosau diwethaf. Ni fu neb yn fwy aiddgar na hi dros yr enwad, a diddorol iawn oedd gwrando arni yn adrodd ei hanes yn yr Iwerddon. Dangosodd ei chyfeillion yn Ballyclare eu hedmygedd o honni, drwy'r anrhegion a ddanfonwyd ganddynt ar ei phen blwydd ac yr oedd hyn yn gysur mawr iddi yn ei chystudd. Pan fyddai yma yn Aberdâr nid oedd neb yn fwy ffyddlon na hi yn yr Hen Dy Cwrdd. Claddwyd Llun, Ion. 22ain, yn y fynwent gyhoeddus. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r brodyr a'r chwiorydd sydd ar ol. Gwasanaethwyd gan Ficer Hughes, Trecynon a'r Parch. E. R. Dennis.

Mercher, 22ain o Ionor, yn 42 mlwydd oed, William John Bowen, annwyl briod Mary Elizabeth Bowen, Rose Cottage, Swansea Road, Trebanos. Gofynnodd rhywun yn fy nghlyw un tro, "Pwy fydd yn falch yn y byd 'ma." Euthum ymaith a meddwl y frawddeg yn llosgi yn fy mynwes. Ac wele ar len y meddwl, ddarlun o ddau, gwr a gwraig, cymharol ifanc, wedi cyd-uno i gyd-fyw a chyd-ymdrechu ym mhob modd i wneud bywyd mor ddedwydd ac y gellid. Ac ar ol llwyddo i wneud hynny, a chael hamdden fach i adolygu'r gorffennol a rhoddi trem ym mlaen, hefyd, i'r dyfodol, a blodau gobeithion bryd-ferthed a briallu cynta'r gwanwyn! Beth wedyn? "A rhwygwyd llenni y deml." Nid rhyfedd i rywun ofyn, "Pwy fydd yn falch yn y byd 'ma." Nad i ba raddau, fe edy pob un ei lafur a'i waith ar ei ol yn y byd. Ac yr oedd ein brawd, a'n cymydog ymadawedig, wedi gwneud ei ol mewn gwahanol amgylchoedd, bron gant y cant. Byddai yn wastad yn ddiwyd a chryno, bob amser, ym mhob man. Ni ddymunem byth gael gwell cymydog, na rhagorach cyfaill,—cyfaill trylwyr. Edmygem ei blaender a'i unplygrwydd yn fawr. Araf y byddai efe yn mowldio ei farn, ond wedi gwneud, glynai wrthi fel y graig. Bu efe yn ffyddlon i'r achos crefyddol yn y Graig a Gellionnen, hyd yr awr olaf. Berwai ei sel a'i deimlad dros y cyfan. Yr oedd yn un o'r pwerau, ac yn un o'r pileri i ddal i fyny a pheri i'r achos da i lwyddo. Edrychai'n ddifrifol ar bwy bynnag a ddigwyddai ddweyd gair yn fach am yr enwad, ac nid hir y byddai cyn sefyll yn gadarn dros ei syniadau, heb anelu at dynnu oddi-tan yr eiddo un enwad, na'r un aelod o enwad arall. Un o blant yr Ysgol Gân a'r Cor oddiar yn fore iawn ydoedd. A dychmygwn glywed ambell nodyn bach tenoraidd yn dychwelyd ar un o dannau'r delyn atgo, a nimnau yn ymson "dyna lais William John." Bu'n dosbarthu yr Ymofynnydd am lawer o flynydd-

oedd gyda'r cysondeb mwyaf. Ac fel trysorydd yr Ysgol Sul bydd ei enw'n fawr yn y lle. Yn olaf, ond nid y lleiaf rheidrwydd arnom yw ei gofio fel un o aelodau ffyddlonaf Seindorf Arian Trebanos am gyfnod hir; ac yma eto, yr oedd ei enaid yn y gwaith. Cans i ba le bynnag y digwyddai i'r Seindorf fyned, byddai William John yno mewn pryd, a'i wisg a'i drombôn yn disgleirio fel "pin mewn pincas," chwedl rhywun. Os y'm yn gywir, credwn ei fod ef yr wythfed o aelodau'r Seindorf a fu farw oddiar gychwyniad y Gymdeithas. Mwynhawyd unawdau'r bywyd bob un, ond dim un yn well na'r Solo Trombôn; ond erbyn heddiw, diflannodd y chwareuwr, a thawelodd pob alaw. Bu o dan bwysau ychydig fisoedd o nychdod blin. Tariodd gobaith gwellhad yn ei ystafell lawer awr, ac mewn gobaith a hyder awd ag ef i Ysbyty Abertawe, ond i ddim pwrpas; a daeth adref eto, a chafodd bob help fedrai'r llaw ddynol wneud iddo. A'r peth rhyfeddaf, daliodd a chredodd fod awr ei adferiad i ddod eto. Bu ei unig frawd, a'i chwiorydd a llawer o'i berthynasau agosaf ac eraill yn ei wylio ef nos a dydd am rai misoedd. Ond eglur ydoedd i angau drechu yr oll, a gorfu arnom yngan "Wele, daeth yr awr." Cymerodd ei angladd le y Sadwrn dilynol, a chladdwyd wrth Gellionnen. Gweinyddwyd yn y tŷ anedd gan y Parch. D. Jones, Pontardawe a gweddiwyd yn y Capel gan y Parch. D. Johns, Trebanos. Anerchwyd yn y Capel a gwnaed y gwasanaeth claddu gan y gweinidog, y Parch. D. G. Rees, Trebanos. Eiddunwn i'r unig frawd sy'n aros, i'r chwiorydd a'r holl berthynasau pell ac agos, a llawer o gysylltiadau eraill, ond yn enwedig i'r weddw unig yr hon a adawyd i frwydro ag amgylchiadau bywyd,—bob nodded a chysur a phob dedwyddwch. Tarddant o ffynnon gras yr Hollalluog.

Ei amser ef a ddaeth,
Ond nid yn ddiarwybod;
A Mair a deimla'r aeth,
A'i dagrau fel y gawod.

Ei amser ef a ddaeth,
Yr ydoedd yn ei ddisgwyl;
A cha'dd y galon aeth,
O golli cyfoed annwyl.

Ei amser ef a ddaeth
Medd awrlais y canrifoedd;
A tharo deuddeg wnaeth
I agor drws y nefoedd.

Cawn ninnau dremio draw
I wlad yr hedd di-ddarfod;
Ein hamser ninnau ddaw,—
Efallai'n ddiarwybod. BANOS.

IAU, Ionawr 23ain, yn 72 mlwydd oed, Jennet Bowen, Tanyrallt, Trebanos. Merch ydoedd i'r diweddar David Bowen, a'i briod Jennet, Gellionnen uchaf, ar un o lethrau mynydd Gellionnen. Yr ydoedd yr ymadawedig yn un o dri ar ddeg o blant, ac nid oes o'r oll yn fyw ond dau neu dri, ac un ohonynt wedi croesi'r cefnfor, ac heb air oddiwrthi er's blynyddoedd maith. Gobeithiwn ei bod yn fyw ac iach, ac y bydd i fendith y Bod mawr i aros gyda hi hyd ei hawr olaf. Erys un peth yn fyw yn ein cof am wrthddrych y nodion hyn, canys y mae i bob person ei arbenigrwydd neilltuol, sef ei ffyddlondeb yng nghyfarfodydd y bore yng Ngellionnen. Yr oedd hi yno yn amlach na llawer ohonom ni ddigwyddem feddu ar well iechyd na hi; ac onid gwers i ni yw peth fel hyn? Benyw dawel oedd hi erioed, ac nid yn aml y clywid hi yn siarad, ond pan ofynnid iddi rywbeth. Ei phresenoldeb hi oedd fwyaf hyawdl. Posibl yw y gallai ein dull o grefydda fod yn fwy llesol ac adeiladol, a mwy dwyfol, pe bai llai o drwst a mwy o'r tawelwch sanctaidd yn ein gwasanaethau. Beth bynnag, diolch am ambell i orig o dawelwch; teimlwn yn well o'r herwydd. A ein cydymdeimlad yn llwyr at y chwaer a'r brawd adawyd ar ol i alaru am y golled; ac at y teulu fu yn garedig iddi bob cam o'r daith. Claddwyd yng Ngellionnen y dydd Mawrth canlynol, a gweinyddwyd yn y tŷ, yn y capel ac ar lan y bedd gan y gweinidog y Parch. D. G. Rees, Trebanos.

CHWEFROR 8, yn 55 mlwydd oed, Mrs. Esther Richards, Penarwel, Adpar, Castell Newydd Emlyn, Genedigol o blwyf Llanwenog ydoedd yr ymadawedig, a bu hi a'i phriod yn byw yn Llandysul am flynyddoedd, cyn symud ohonynt i Gastell Newydd Emlyn. Un dawel a distaw ydoedd a thra yn Llandysul mynychai'r gwasanaeth ym Mhantydefaid yn ffyddlon. Y dydd Mercher dilynol cludwyd ei gweddillion marwol i fynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas. Gadawodd mewn galar o'i cholli briod a mab a merch.

IONAWR 29, yn 41 mlwydd oed, Mr. William Howells, Mount Pleasant Pencader, gan adael tri phlentyn yn amddifad bellach o dad a mam. Brodor o ardal Llanpumpsaint oedd yr ymadawedig, ac wedi ymbriodi a merch Cross Inn, Llanfihangel-ar-arth Buont yn byw am rai blynyddau mewn ffermdy ger Alltwalis. Tua phedair mlynedd yn ol bu ei briod farw a thorrwyd cynlluniau ei fywyd y pryd hwnnw. Claddwyd yntau ym mynwent Pantydefaid ym medd ei briod. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y capel gan y Parchn. G. T. Morris (B.), A. Evans, curad Pencader, Cennech Davies (A.), T. B. Thomas (M.C.), Llanpumpsaint a T. Arthur Thomas.

Nodion yr Eglwysi.

TREBANOS A GELLIONNEN.—Yn ystod y mis anfonwyd imi gopi o'r West Wales Observer am ddydd Gwener, Ionor 17, 1930, a bum am ennyd yn methu dyfalu ei neges, ond wedi ei droi a'i drosi deellais. Yno yr oedd newydd trist i mi o leiaf—newydd fod y Parch. D. G. Rees yn bwriadu ymddiswyddo ym mis Mehefin nesaf. Nid wyf yn eiddigeddu dim ato ond meddyliwn beth a ddywedai yr hen *frigade* o feddwl am *retiro* yn 65. O edrych yn ol nid yw ond megis ddoe pan groniclid Rees fel *convert*. Y mae ers blydyddoedd bellach wedi ennill ei le "Oni anwyd ef yn freiniol." Ni wŷr odid neb o'i gynulleidfa ond am *un* Ddolgranod ond fe wn i am Ddolgranod arall lle yr agorodd ei lygaid gwirion a rhadlon gyntaf ar y byd. Y mae wedi gwasanaethu llawer cynulleidfa a rhoes ddeunaw mlynedd o wasanaeth didwyll a ffyddlon i Drebanos a Gellionnen. Ni arbedodd mo'i hun. Nid oes neb ffyddlonach i'r Cyfarfodydd Chwarter a Blynyddol. Pan fydd llawer un ohonom yn petruso a grwgnach, y mae Rees bob amser yn barod. Y mae'n gyfaill y plant a'r bobl ieuainc ac ys dywedai un o'i ddisgyblion pwy ddydd, "Ni ofynais gwestiwn iddo na chefais ateb a'm bodlonai." Tystiolaeth uchel i barodrwydd a gwybodaeth Mr. Rees. Gŵyr y mwyafrif o'm darllenwyr am ei ddawn barod a chredaf y buasai'r enwad ar ei fantais pe bai wedi cadw Rees fel cenhadwr teithiol. Clywaf yn aml dystiolaeth iddo ar "y Van" a gwn am dano fel darlithydd syml a dirodres. Gydag hamdden mwy gobeithio y cawn ragor o'i wasanaeth i'r cynulleidfaoedd ar wasgar, a dymunaf iddo Hydref o iechyd i bregethu a darlithio. O feddwl am dano ef ac Evans y Cribyn wedi retiro, ni fedraf lai na dywedyd fod "*dau grwt*" wedi ymddiswyddo.—Bendith Duw arnynt ill dau.—O.

CAERONNEN.—Nos Iau, Chwefror 13, cawsom noson lawen yng Nghaeronnen. Nid yn aml y byddwn yn cael *socials* yn y wlad ond fe gawsom *social* pwy noson a chredaf na fyddwn mor hir cyn cael un eto. Troes pob aelod a fedrai allan ac yr oedd y plant yma'n gryno. Rhoddwyd y wledd gan Misses Nancy Lee a Nanna Williams, Brynllewelyn, ac yr oedd Caeronnen yn ddiolchgar. Gwasanaethwyd gan foneddigesau'r lle ac yr oedd pawb yn hapus. Nid

yw felly bob amser hyd yn oed mewn Social. Wedi'r te cafwyd cyngerdd blasus—rhyw 31 o itemau. Pob plentyn wedi gwneud rhywbeth a rhagor nag unwaith. Yr oedd y cyngerdd yn glod i bob un a fu'n dysgu'r plant—ac yn arbennig i Miss Dinah Davies, Caeronnen. Rhoes y ddwy Fiss Williams bobo bresant bach i'r plant ac yr oedd gwên y plant a'r rhai mewn oed yn ddigon o dâl.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Yn y Graig, nawn a nos Sul, Chwef. 16eg, a than nawdd Ysgol Sul y lle, cynhaliwyd dau gyfarfod pen cwarter yr Ysgol. Da gennym sylwi fod cynifer o blant yn cymeryd rhan. Dechreu'n fore am dani, dyna sut y gwnawn waith da yn nydd bywyd. Llywyddwyd yn y prynhawn gan y Gweinidog. Eto yn yr hwyr cawd cwrdd da ym mhob ystyr, a phob un ar ei oreu. Rhoddwyd gofal y rhaglenni i Arolygydd yr Ysgol Sul, sef Mr. Lewis Morgan, Clydach. Yr un eto'n llywyddu. A'r cyfeilwyr oedd Mr. Emrys Hopkin, Mr. I. E. Hopkin, Miss Amelia Jenkins a Miss Lilian Bowen.

ADOLYGIAD.—"Dewi Sant yng Nglyn Rhosyn"; Drama Un Act i Blant Ysgolion Elfennol, gan John Davies (Pen Dâr), Aberdar. Pris—Tair Ceiniog. Drama fechan seml i blant yn darlunio bywyd Dewi ydyw—Rhoir ynddi gip ar ei fywyd—ei waith yn iachau y cleifion—a gwelir Boia a'i Wyddyl yn dod i'w gyfarfod ond tan ddylanwad Dewi gwelir Gwyddyl a Brython yn plygu ger bron yr un Duw ac yn cael y fendith. Credaf y byddai'i chwarae ar ddydd Gwyl Dewi yn ennyn ynghalonnau'r plant gariad at yr hen Saint ac at Gymro a Chymraeg.

EIN PULPUDAU GWAG.—Ym mhwyllgor Hydref y Gymdeithas a gynhaliwyd yng Nghapelygroes pasiwyd fod Pwyllgor arbennig yn cael ei alw i ymdrin a mater "Ein Pulpudau Gwâg"—fod y Pwyllgor yn cael ei wneud i fyny o'r gweinidogion ac un cynrychiolydd o bob Eglwys. Fe gynhelir y Pwyllgor arbennig hwn yng Nghapelybryn, Cwrtnewydd dydd Llun, Mawrth 17, am 2 o'r gloch. Hyderwn y gwna pob Eglwys ddanfon cynrychiolydd yno ac y gwna'r oll o'r gweinidogion droi i fyny.

E. O. Jenkins, *Ysg.*

ER COF AM ANNE LEWIS, Gynt o PENRHIW, TALGARREG.

Un yn llawn o garedigrwydd
A ymdrechodd wneud ei rhan
Hyd y gallai er pob rhwystrau,
Drwy ei bywyd ydoedd Ann :
Drws ei bwthyn bach di-addurn
Yn agored oedd bob pryd
I gardotyn ar ei ymdaith
O dan iasau oer y byd.

Hûn o hedd ddymunwn iddi
Yn yr erw dan yr yw,
A phan ddelo Sul y Blodau
Cofiwn am hen wraig Penrhiw :
Cariodd yn ei llaw bwysïau
Teca'u lliwiau, pan yn iach :
Mewn hyfrydwch y cyfrannai
Ran o flodau'i border bach.

Er dioddef cystudd caled
Wedi'r pedwar ugain ôd,
Mwy boddlongar ar ei thynged
Ni allasai undyn fod ;
Gwelodd lawer storm yn pasio
A roes ar ei chalon graith,
Edrych ar yr ochr olau
Wnaeth nes cyrraedd pen y daith.

Wedi cwrdd a'i hen gyfeillion
Y mae hithau erbyn hyn,
Hunant bellach uwch pryderon
Yn y fynwent ar y bryn ;
Gwers o'i bywyd ddysgwn ninnau
Tra bom ni ar dir y byw,
Paratôwn i deithio'r siwrnai
Erys pawb o ddynolryw.

Penlon, Tregroes. D. D.

SYLWER.—Nid oes eisiau ychwaneg o Ymofynyddion am Medi, 1926.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED).

JEWELLER, SILVERSMITH & OPTICIAN,

1, WIND STREET, LLANDYSSUL.

WHAT BETTER PRESENT
CAN YOU GIVE THAN A

GRAMOPHONE?

A GIFT THAT WILL GIVE PLEASURE AND ENJOYMENT THROUGHOUT THE YEAR.

AGENT FOR "HIS MASTER'S VOICE" AND ALL LEADING MAKES OF GRAMOPHONES AND RECORDS.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR SPRING AND EARLY SUMMER.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.